**Elin Jones AS, Llywydd**
Senedd Cymru
**Elin Jones MS, Presiding Officer**
Welsh Parliament

Syr Oliver Heald
Arweinydd a Chyd-gadeirydd Dirprwyaeth y DU i Gynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE
Ty'r Cyffredin
Llundain
SW1A 0AA
cc: Alun Davies AS, Aelod o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Sam Kurtz AS, Aelod o Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

27 Ebrill 2022

Annwyl Oliver

**Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE, Brwsel 12-13 Mai 2022**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Ebrill ac am y gwahoddiad i anfon dau gynrychiolydd o'r Senedd i gyfarfod cyntaf y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ar 12-13 Mai. Fel y gwyddoch, mae'r materion sydd i'w trafod gan y Cynulliad o bwys mawr i'r Senedd a'i Haelodau. Mae'r cyfle i fynd i'r cyfarfod cyntaf yn cael ei groesawu'n gynnes gennym.

Y cynrychiolwyr o'r Senedd fydd yn bresennol yn y cyfarfod cyntaf yw Alun Davies AS, Aelod o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Sam Kurtz AS, Aelod o Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau ai'r bwriad yw gwahodd y deddfwrfeydd datganoledig i gyfarfodydd yn y dyfodol fel mater o drefn, gan y bydd hyn o gymorth gyda'n trafodaethau mewnol. Rwy'n gwybod fod sgyrsiau parhaus hefyd am ymgysylltiad y deddfwrfeydd datganoledig yng ngwaith dirprwyaeth y DU ac rwy'n siŵr y bydd llawer i'w ennill o fanteisio i'r eithaf ar y cyfle i gryfhau gweithio a deialog rhyngseneddol.

Dyma ddymuno'n dda i chi a dirprwyaeth y DU yn eich trafodaethau yn y cyfarfod cyntaf ac yn eich gwaith yn y dyfodol.

Yn gywir,

**Elin Jones AS**
Y Llywydd

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
llywydd@senedd.cymru
0300 200 7403

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
llywydd@senedd.wales
0300 200 7403